Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Bryniago yn gymuned weithgar a hapus lle mae pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni'n dda. Mae'r pennaeth wedi sefydlu arweinyddiaeth gadarn ac yn cynnig cyfeiriad clir ar draws yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn o'i hunan ac eraill. Gyda'i gilydd, mae'r pennaeth, llywodraethwyr a'r uwch arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn dda. Mae eu gwybodaeth drylwyr am y ddarpariaeth yn gryfder.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da. Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm yn effeithiol ac yn darparu profiadau dysgu diddorol a phwrpasol i ddisgyblion. Mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn fathemategwyr cymwys, yn ysgrifennu'n aeddfed at ystod o ddibenion ac yn cyflawni safonau uchel yn eu medrau gwyddonol. Mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn datblygu ymwybyddiaeth gref o'u hardal leol, ac o hanes, diwylliant a phobl Cymru.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn gosod disgwyliadau uchel o'r hyn maent yn ei gyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn barod i fwynhau ac ymgolli yn eu dysgu. Er hyn, mae staff yn dueddol o or-arwain y dysgu sy'n aml yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth dda o'u dysgu. Ar y cyfan, mae athrawon yn adnabod cryfderau'r  disgyblion yn werthfawr ac yn eu cefnogi'n llwyddiannus i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae bron bob disgybl yn gwrtais ac yn dangos parch aeddfed tuag at eraill. Maent yn rhyngweithio â'i gilydd yn ofalgar a chefnogol, er enghraifft trwy'r cynghorau ysgol. Mae staff yn darparu amgylchedd ysgogol sy'n sicrhau bod lles disgyblion yn cael ei gefnogi'n dda.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ar draws yr ysgol ymateb i adborth athraown ac adnabod y cam nesaf yn eu dysgu**

**A2 Datblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion ieuengaf**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**



Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.